O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2025 Rhif 680 (Cy. 112)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Ffordd Osgoi'r Drenewydd i'r de o gyffordd Llaethddu, Powys) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2025

Gwnaed	*10 Mehefin 2025*
Yn dod i rym	*16 Mehefin 2025*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A483, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Ffordd Osgoi'r Drenewydd i'r de o gyffordd Llaethddu, Powys) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2025 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 16 Mehefin 2025.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**) neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 09:00 o'r gloch ar 16 Mehefin 2025 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A483 Abertawe i Fanceinion;

ystyr "lluoedd arbennig" ("*special forces*") yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

Cyfyngiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o gefnffordd yr A483 sy'n ymestyn o gyffordd tua'r de Cylchfan Laura Ashley ar Ffordd Osgoi'r Drenewydd i gyfeiriad y de hyd at bwynt 868 o fetrau i'r de o gyffordd Llaethddu yr C1203.

Cymhwyso

4. Ni fydd y gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

(**1**) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22), ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 10 Mehefin 2025

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru